CYLCHLYTHYR

Partneriaeth Archif S4C

Dyddiad:	09 Mehefin 2016
Cyfeirnod:	15/06
At:	Penaethiaid sefydliadau addysg uwch Cymru, Grŵp Ymgynghorol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, cydlynwyr darpariaeth cyfrwng Cymraeg sefydliadol a Swyddogion Cangen.
Ymateb Erbyn:	12:00, 30 Medi 2016
Cyswllt:	Mari Fflur, Swyddog Cyhoeddiadau m.fflur@colegcymraeg.ac.uk

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar wefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
http://www.colegcymraeg.ac.uk/cylchlythyron

Partneriaeth Archif S4C

Cefndir

1. Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn sefydliad cenedlaethol sydd yn rhoi arweiniad strategol i'r sector addysg uwch wrth gynllunio, cynnal a datblygu addysg ac ysgolheictod cyfrwng Cymraeg. Un agwedd ar y gwaith hwn yw darparu a hwyluso mynediad at gorff o ddeunyddiau ysgolheigaidd cyfrwng Cymraeg er budd myfyrwyr, staff a'r gymuned academaidd ehangach.

2. Trwy'r Gronfa Datblygiadau Strategol a'r Gronfa Grantiau Bach, mae'r Coleg wedi cyllido cynlluniau sydd wedi esgor ar amryw o allbynnau print a/neu electronig. Mae'r rhain yn cynnwys ystod eang o adnoddau megis monograffau, cyfrolau ymchwil, cyfnodolion, gwerslyfrau, ffilmiau a darlithoedd. Llwyfennir yr adnoddau electronig yn Llyfrgell y Coleg (www.llyfrgell.porth.ac.uk).

3. Serch hynny, mae'r Coleg yn ymwybodol y gellir defnyddio mathau eraill o adnoddau at ddibenion dysgu ac addysgu. Mae rhaglenni teledu Cymraeg, er enghraifft, yn ffynhonnell gyfoethog o ddeunydd addysgiadol, ond hyd yma ni fu modd i staff a myfyrwyr gael mynediad rhwydd i archif o raglenni teledu Cymraeg.

4. Er mwyn goresgyn y broblem honno, mae'r Coleg, mewn cydweithrediad ag S4C ac ERA (Educational Recording Agency), wedi trefnu i gael mynediad at archif S4C o'r rhaglenni a ddarlledwyd ganddi ers ei sefydlu yn 1982.

5. Bydd y Coleg yn gosod detholiad o'r rhaglenni hyn yn Llyfrgell y Coleg at ddefnydd staff a myfyrwyr. Mae modd eisoes i ddefnyddwyr awdurdodedig weld detholiad enghreifftiol o raglenni drwy fewngofnodi yn www.llyfrgell.porth.ac.uk a mynd i gategori 'Archif S4C'. Esbonnir sut i gofrestru fel defnyddiwr awdurdodedig ym mharagraff 22 isod.

6. Amlinella'r cylchlythyr hwn yr amodau defnydd a chyfle i'r sawl sydd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i wneud cais am raglenni i fod yn rhan o'r cynllun hwn.

Nod y prosiect

7. Prif nod y prosiect yw goresgyn yr anawsterau sy'n wynebu staff academaidd sy'n dymuno defnyddio deunydd teledu Cymraeg i gyfoethogi profiadau dysgu ac addysgu myfyrwyr a/neu ar gyfer eu hymchwil bersonol.

8. Bwriedir llwyfannu detholiad o raglenni yng nghategori 'Archif S4C' yn Llyfrgell y Coleg. Ceir mynediad atynt drwy gyfrwng rhif aelodaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Gwahodd ceisiadau am raglenni

9. Gwahoddir staff academaidd i wneud ceisiadau am raglenni teledu Cymraeg y dymunant iddynt fod ar gael yn Llyfrgell y Coleg.

10. Ceir ffurflen gais yn Atodiad A a cheir rhestr o'r rhaglenni a'r cyfresi y gellir gwneud cais amdanynt yn bit.ly/archifS4C. Gellir gwneud cais am nifer o raglenni a chyfresi gyda'i gilydd. Dylid nodi'r rhif(au) cynhyrchiad perthnasol wrth wneud cais.

11. Dylir nodi rheswm addysgiadol clir dros wneud cais am raglen, gan y bydd cyfyngiad ar y nifer o raglenni y gellir eu gosod yn Llyfrgell y Coleg.

12. Caiff pob cais am raglen/cyfres unigol ei gategoreiddio yn ôl y drefn isod.

1	Ychwanegiad sylweddol at y ddarpariaeth bresennol mewn mwy nag un sefydliad; ***neu*** Yn caniatáu datblygu darpariaeth newydd ar draws mwy nag un sefydliad.
2	Ychwanegiad sylweddol at ddarpariaeth bresennol un sefydliad; ***neu*** Ychwanegiad dymunol at y ddarpariaeth bresennol mewn mwy nag un sefydliad; ***neu*** Yn caniatáu datblygu darpariaeth newydd mewn un sefydliad.
3	Ychwanegiad dymunol at ddarpariaeth bresennol un sefydliad.
4	Ychwanegiad dymunol at waith ymchwil.
0	Gwrthod.

GB	Nodwyd dymuniad am wybodaeth bellach gan S4C (gohirir y penderfyniad hyd nes bydd deiliad y cais wedi derbyn y wybodaeth bellach ac wedi penderfynu a yw'n dymuno parhau â'r cais ai peidio).

13. Rhoddir blaenoriaeth i geisiadau sy'n syrthio i gategori 1 neu 2 uchod wrth ddewis rhaglenni i'w llwyfannu yn Llyfrgell y Coleg.

14. Mae rhaglenni hŷn (1982–2006) yn llai tebygol o fod ar gael mewn ffurf ddigidol, sy'n golygu y bydd yn rhaid i S4C eu digido cyn eu trosglwyddo i'r Coleg. Adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i'r pwrpas hwn, a gofynnir i staff academaidd gadw hyn mewn cof wrth wneud ceisiadau.

15. Croesewir ceisiadau a wneir ar y cyd gyda staff academaidd o sefydliadau a/neu adrannau eraill.

16. Croesewir ceisiadau am gyfresi cyfan. Dylid bod rheswm addysgiadol clir dros wneud cais am gyfres yn hytrach na rhaglen(ni) unigol.

17. Mae'r Coleg yn cydnabod bod gwybodaeth am gynnwys rhai rhaglenni, yn enwedig rhai hŷn, yn brin, ac y gallai hyn amharu ar allu staff academaidd i ragweld sut y gellid eu defnyddio at ddibenion addysgu. Fodd bynnag, anogir staff academaidd i ymchwilio hyd eithaf eu gallu i gynnwys rhaglenni cyn gwneud cais. Gwrthodir ceisiadau amwys a cheisiadau sy'n dangos diffyg gwaith ymchwil.

18. Serch hynny, pe cyfyd achosion pan fydd angen clir am wybodaeth bellach cyn gallu cyflwyno cais, gellir gwneud cais am ddisgrifiad byr o gynnwys rhaglen(ni) gan S4C. Yn yr achosion rheiny, gohirir y penderfyniad hyd nes y bydd deiliad y cais wedi derbyn y wybodaeth ac wedi penderfynu a yw'n dymuno parhau â'r cais ai peidio.

19. Yn ddibynnu ar lwyddiant y cynllun a'r nifer o geisiadau a ddaw i law, rhagwelir y daw cyfle pellach i wahodd rhagor o geisiadau ymhen amser.

Telerau ac amodau

20. Defnyddwyr awdurdodedig yn unig fydd â mynediad i'r rhaglenni.

21. Defnyddwyr awdurdodedig yn unig a all wneud cais am raglenni.

22. Er mwyn bod yn ddefnyddiwr awdurdodedig, rhaid bod yn:
    i. Aelod o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (gellir ymaelodi yn: www.colegcymraeg.ac.uk/cy/ymaelodi/).
    ii. Aelod o sefydliad addysgol sy'n berchen trwydded ERA (gellir gwirio os yw sefydliad addysgol yn aelod o ERA yn: www.era.org.uk/licence).
    iii. Aelod o sefydliad addysgol sy'n aelod-sefydliad o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (sef holl sefydliadau addysg uwch Cymru, gan gynnwys y Brifysgol Agored).

23. Cyfrifoldeb deiliad y cais yw sicrhau y defnyddir y rhaglen(ni) at ddibenion addysgol, anfasnachol yn unig. Ni chaniateir defnyddio'r deunydd at ddibenion masnachol, copïo, gwerthu, ailddosbarthu, cyhoeddi ar ffurf perfformiad cyhoeddus, neu gyfathrebiad cyhoeddus arall o unrhyw fath, neu unrhyw beth cyffelyb o dan unrhyw amodau.

24. Cyfrifoldeb deilad y cais yw sicrhau y defnyddir y rhaglenni gan ddefnyddwyr awdurdodedig yn unig.

Cynnig syniadau neu arbenigeddau

25. Dylai staff academaidd sydd yn dymuno cynnig syniadau neu arbenigeddau ar gyfer rhaglenni ffeithiol gysylltu ag Adran Gomisiynu S4C (gweler www.s4c.cymru/cy/cynhyrchu/).

Amserlen

26. Gofynnir i staff academaidd wneud ceisiadau am raglenni erbyn **12:00 ar 30 Medi 2016**. Dylid anfon ceisiadau drwy e-bost ar y ffurflen atodedig (gweler Atodiad A) at Swyddog Cyhoeddiadau'r Coleg, Mari Fflur: mari.fflur@colegcymraeg.ac.uk.